**Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Cynllun Diogelu Myfyrwyr**
Gan: Dr Beth Edwards
Dyddiad: 20 Ionawr 2026

| **Nod y Project** |
|---|
| *Beth mae'r project yn gobeithio ei gyflawni? (Nodwch y canlyniadau a'r manteision ariannol ac/neu anariannol).* |
| Mae'r Cynllun Diogelu Myfyrwyr hwn yn amlinellu ymrwymiad Prifysgol Bangor i ddiogelu buddiannau myfyrwyr, cynnal ansawdd a safonau academaidd, diogelu cydraddoldeb a pharhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg rhag ofn y bydd newidiadau sylweddol i ddarpariaeth rhaglenni, strwythur rhaglenni, neu statws sefydliadol.<br><br>Mae'r Cynllun yn nodi prosesau, rolau a chyfrifoldebau clir, a mesurau lliniaru i sicrhau bod pob myfyriwr, waeth beth fo'u cefndir neu nodwedd warchodedig, yn cael eu cefnogi'n deg ac nad ydynt dan anfantais oherwydd newid sefydliadol neu newid ar lefel rhaglen. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y Project** | Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Cynllun Diogelu Myfyrwyr |
| **Arweinydd y Project** | Dr Beth Edwards |
| **Tîm y Project** | Kelly Fisher |

| **Beth yw effaith y project, y polisi neu'r ymarfer ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig?** |
|---|
| *O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i'r Brifysgol roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y ddyletswydd cydraddoldeb yw:* ***oedran, anabledd, ailbennu rhywedd (Traws), beichiogrwydd a mamolaeth, hil (ethnigrwydd), crefydd neu gred, rhyw (rhywedd), cyfeiriadedd rhywiol a phriodas / partneriaethau sifil*** *ac mae'r ddyletswydd hefyd yn berthnasol i ofalwyr. Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Brifysgol ddangos ei bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i nodau'r ddyletswydd cydraddoldeb yn ei phrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.* |

| **Gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** | **Tystiolaeth** | **Manylion yr Effaith (Cadarnhaol/Niwtral/Negyddol)** |
|---|---|---|
| **Dileu Gwahaniaethu**<br><br>• *A yw'r project yn debygol o drin rhywun yn llai ffafriol neu eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig?* | • Mae'r Cynllun yn berthnasol yn gyffredinol i bob myfyriwr ac mae'n cynnwys ymrwymiadau penodol i fynediad cyfartal at gefnogaeth academaidd, | Cadarnhaol / Niwtral<br><br>Ni ddisgwylir i'r Cynllun drin unrhyw unigolyn na grŵp yn llai ffafriol yn seiliedig ar nodwedd |

| | | |
|---|---|---|
| • *A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at wahanol ganlyniadau i wahanol grwpiau gwarchodedig?* | gwasanaethau llesiant, cymorth ariannol, a gweithdrefnau cwyno ac apelio.<br>• Nodir risgiau penodol sy'n effeithio ar grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, myfyrwyr anabl, myfyrwyr rhyngwladol, gofalwyr, a myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu neu rai sy'n gysylltiedig ag iechyd.<br>• Mae mesurau lliniaru yn cynnwys trefniadau dirwyn addysgu i ben, dulliau cyflwyno amgen, addasiadau rhesymol, cefnogaeth iaith, a chyngor academaidd personol. | warchodedig. Drwy ymgorffori hyblygrwydd a chefnogaeth bersonol, mae'n lleihau'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol sy'n deillio o gau rhaglenni, newidiadau i'r dull cyflwyno, neu ailstrwythuro sefydliadol. |
| **Hyrwyddo Cyfle Cyfartal**<br><br>• *A fydd anghenion y staff a'r myfyrwyr hynny sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael eu bodloni?*<br>• *A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at fwy o ymwneud/cyfranogiad gan grwpiau gwarchodedig?*<br>• *A oes unrhyw gyfleoedd i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer grwpiau gwarchodedig penodol a/neu rhwng grwpiau gwarchodedig?* | • Mae'r Cynllun yn ymrwymo i gyfathrebu cynnar, tryloyw ac ymgynghori ystyrlon â myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr.<br>• Cynigir cyngor academaidd wedi'i deilwra, cynllunio dilyniant a chefnogaeth llesiant i fyfyrwyr yr effeithir arnynt gan newid.<br>• Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i diogelu'n benodol drwy gyswllt â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chyfathrebu dwyieithog.<br>• Gwneir darpariaeth ar gyfer trefniadau dysgu hyblyg, darpariaeth o bell, a chefnogaeth ariannol (e.e. costau teithio), sydd o fudd penodol i fyfyrwyr anabl, gofalwyr, myfyrwyr hŷn, a myfyrwyr rhyngwladol. | Niwtral<br><br>Mae'r Cynllun yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn weithredol drwy leihau rhwystrau i barhad a dilyniant, cefnogi cyfranogiad myfyrwyr a allai gael eu heffeithio'n anghymesur gan newid sefydliadol, a sicrhau nad yw trefniadau amgen yn rhoi anfantais i grwpiau gwarchodedig. |

| | | |
|---|---|---|
| **Hybu Perthynas Dda**<br><br>• *A oes camau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth?*<br>• *Sut mae unigolion, grwpiau neu gyrff perthnasol wedi eu cynnwys/wedi cael cyfle i roi eu barn wrth ddatblygu ac asesu effaith y project?* | • Mae myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr yn rhan o brosesau ymgynghori a chyfathrebu sy'n ymwneud â newid rhaglenni neu eu cau.<br>• Mae cydweithio ag Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi tryloywder a llais myfyrwyr.<br>• Cyfathrebu clir a hygyrch, gan gynnwys darpariaeth ddwyieithog - hyrwyddo ymddiriedaeth, dealltwriaeth a hyder mewn penderfyniadau sefydliadol.<br>• Os bydd angen dirwyn addysgu i ben ar gyfer cwrs, mae'r Sylwebaeth Gloi yn cynnwys adran ar gyfer gwersi a ddysgwyd. Mae hyn yn gyfle i adfyfyrio ar unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig. | Niwtral<br><br>Mae'r Cynllun yn cefnogi perthnasoedd da drwy feithrin cyfathrebu agored, lleihau ansicrwydd, a sicrhau bod pryderon myfyrwyr yn cael eu trin yn barchus ac yn gyson ar draws gwahanol grwpiau. |

| **Ar sail yr asesiad uchod, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?** | |
|---|---|
| **Does dim angen newid mawr**<br><br>*Nid yw'r asesiad wedi canfod unrhyw botensial i wahaniaethu nac effaith anffafriol a chymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.* | Nid yw'r asesiad wedi nodi dim potensial i wahaniaethu nac effaith anffafriol anghymesur. Mae'r cynllun yn cynnwys mesurau diogelwch priodol ac eglurder ynghylch cyfleoedd i fyfyrwyr a staff gyfrannu drwy gydol y prosesau a amlinellir yn y cynllun. |
| **Gwneud addasiadau er mwyn diddymu'r rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.**<br><br>*Nodi'r addasiadau a wneir i ddiddymu'r rhwystrau sydd wedi eu nodi yn yr asesiad neu i hyrwyddo cydraddoldeb yn well.* | Amherthnasol |
| **Parhau er ei bod yn bosib y bydd effeithiau negyddol neu y caiff cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb eu colli.** | Amherthnasol |

| | |
|---|---|
| *Nodi'r camau a gaiff eu cymryd i leihau neu i liniaru'r effeithiau anffafriol.* | |
| **Aros ac ailfeddwl**<br><br>*Mae'r asesiad yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosib. Nodi'r camau a gymerir i atal ac/neu ailfeddwl am y project.* | Amherthnasol |

| **Sut caiff effaith wirioneddol y project, y polisi neu'r ymarfer ei monitro unwaith y caiff ei weithredu?** |
|---|
| Mae monitro parhaus ac adroddiadau i Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn rhan o galendr blynyddol y brifysgol. Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a gwneir unrhyw addasiadau rhesymol.<br><br>Caiff y Cynllun hwn ei adolygu'n flynyddol gan y Cofrestrydd Academaidd. |

| **Cyhoeddi** |
|---|
| Cyhoeddir yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb hwn ochr yn ochr â'r Cynllun drwy wefan Prifysgol Bangor.<br>https://www.bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy |